Bwletin Llên Natur
Golwg newydd ar y byd o'n cwmpas
Rhifyn 78
Awst 2014

# Dod i weld o bellter cred…



Y cae 12 acer o Babi Coch yr Yd ar fferm Cadnant Isa, Glynceiriog. Cae mawr, gwastad, ar y dde i'r gulffordd serth, droellog, sy'n arwain i fyny heibio Ty'n Groes i gyfeiriad Llangollen yn eiddo i Eleri Gwyndaf (fy mhriod) a'i brawd, Rheinallt Parry (tenant: Garry Davies). Y cae arbennig hwn heb ei aredig ers blynyddoedd maith tan eleni. Ei ddefnyddio fel porfa ac i dyfu gwair. Y blynyddoedd diwethaf hyn y cae wedi derbyn gofal organig. Eleni tyfwyd ceirch arno, a rhyfeddod i bawb oedd ei weld yn y man yn llawn o babi coch yng nghanol yr ŷd. Daw pobl o bellter cred i weld a gwerthfawrogi'r olygfa hardd ac anarferol hon. Bu 'Heno' yn ffilmio Eleri a minnau . Darlledwyd nos Lun, 14 Gorff. – dyma oedd yr olygfa fwyaf cofiadwy i Gerallt Pennant ar y daith 'Cerddwn Ymlaen'.

**Robin Gwyndaf ac Arwyn Lloyd Jones** **Adroddwyd am y cae trawiadol hwn yn y Shropshire Star**

## Awst mewn Hanes

Dyma'r gyntaf o gyfres sydd yn dewis cofnod neu gofnodion cofiadwy o'r mis cyfredol. Dyma gofnod o ddyddiadur William Bulkeley o 29 Awst 1734

*29th. Viper The Wind S.W. a dark cloudy day very like rain, tho it made 2 or 3 showers before day it made very little afterwards till betwixt 7 and 8 in the Evening it rained very hard, this day I finished reaping the Wheat, which made 62 shocks, besides Tythe. My Poor Dog Ranter was bit by a Viper, which I killed, and immediately opened & took out her fat which was near an ounce & by the time I had come home from the reapers where the poor Dog was bit, the part was swol mightily, & putting a spatula in the fire & makeing it red hot, & holding it over ye place so bit & anointing the part at the same time with ye fat melted & applied very hot, the Dog by Night was pretty well, ye swelling almost all vanished, & I hope he will do very well ?*

**Dewch i Ddiwrnod William Bulkeley yn y Brynddu, Llanfechell, Mon: 19 (ysgolion) a 20 (y cyhoedd) Medi 2014. Rhaglen yma**

**Cynhyrchwyd gan Duncan Brown ac Ifor Williams**
**Gallwch gysylltu drwy llennatur@yahoo.co.uk. neu drwy Facebook**
**https://www.facebook.com/pages/Llen-Natur/367783090676?ref=hl**
**Gallwch fewn bynnu eich lluniau a'ch cofnodion yn syth i'r wefan, www.llennatur.com.**
**Hoffwch fynd ar gwrs hanner diwrnod i ddysgu sut i ddeall y wefan yn well? - Gadewch i ni wybod**

## Dyddiadur Twm Elias o Cairns, Awstralia

Mae Twm Elias yn rhoi ei fwletin dyddiol o Awstralia i Llen Natur. Ewch i fan hyn i fysnesu am ei hynt a'i helyntion

## Mega-leuad: trem o sawl gwlad

Clip fideo o'r Guardian ar-lein

…..Y lleuad i`w weld yn fawr iawn heno. Gneud imi feddwl am y rhigwm


Lleuad yn ola
Plant bach yn chwara
Lladron yn dwad
Dan weu sana.

**Olwen Evans**

Mega-leuadau eraill (a mega-lanwâu hefyd?) 10 Awst a 9 Medi. Dyddiadau da I gael lluniau o Sarn Badrig ar y trai - o rywle yn y Rhinogydd, neu un o'r coedwigoedd hynafol dan y môr. . Camerâu yn barod….!

## Ers dechrau cofnodi…

Sylwch sut mae pob mis yn olynol ers mis Ionawr (a Rhagfyr y llynedd




hefyd gyda llaw) hyd fis Mai yn uwch na'r cyfartaledd deng mlynedd. Does dim yn anarferol wrth gwrs am fis â thymheredd uwch na'r cyfartaledd, ond SAITH mis yn olynol…. anarferol iawn meddai Huw.

**Data a sylwadau Huw Holland Jones**

Mis Mai eleni oedd y poethaf ar y ddaear ers dechrau cofnodi yn 1880 yn ol NOAA (National Oceanic and Atmospheric Administration). A'r cyfnod Mawrth-Mai oedd yr ail boethaf ar raddfa daear lawn (2010 sydd yn cipio'r "wobr" yn hynny o beth). Ebrill 2014 oedd hefyd yr Ebrill poethaf ers dechrau cofnodi. Efallai nad yw hyn yn cyfieithu i dymheredd chwilboeth pob dydd am fisoedd mewn unrhyw un lle arbennig, ond mae'r sgrifen ar y wal mor belled ag y mae Newid Hinsawdd. Dyma sut mae'r sefyllfa hyn yn cyfeithu yn y Waunfawr:

## Hislod a trogod



Ges i hyd i hwn wrth fynd trw un o gardia'r camra, llygoden bengron goch a hislod arni. Hislod dwi yn eu galw - dwn ni ddim be mae gweddill y wlad yn ei galw. **Arfon Owen**

Be dach chi yn eu galw? Gol.

## Y pupurlys llwyd yn Llandudno



Llun gan Wendy McCarthy a dynnwyd o'r pupurllys yn ardal Llandudno tua dechrau mis Mehefin eleni.

Tybed ai'r un planhigyn yw hwn ag y cofnododd Harry Thomas yn ei ddyddiadur yn 1914:

**Llandudno, 12 Mai 1914**: …. *Mr Actel tells me he has picked Lepidium draba in a field near. A Kentish botanist staying with him for the week end found 196 wild plants in bloom here while at his home he had gathered only 56 (The 196 include the 56 found at his home locality)*

## Mwsogl difyr yng Nglynllifon



Mwsogl sydd wedi ffurfio clustogau bach ar y to ger y caffi yng Nglynllifon. Pa fath o fwsogl? O ble y daeth? A pham fod o yno rwan? Malcolm Watling, ein briolegydd, o Flaenau Ffestiniog sydd yn gwybod.
http://llennatur.com/files/u1/Interesting__moss_formation_on_a_slate_roof.pdf

## Wiwerod yn rhisglo




Olion wiwer lwyd wedi ei gweld yn cnoi'r rhisgl oddi ar y goeden yma, ac wedi gadael y cwbwl ar lawr wrth fon y goeden.

'Roedd hyn mewn gardd yn Saron, Llanwnda ger Caernarfon.




Dyma'r rhisgl a adawodd y wiwer lwyd ar lawr wrth fon y goeden.
'Roedd hyn mewn gardd yn Saron, Llanwnda ger Caernarfon. Diolch i Dewi am dynnu ein sylw i hyn.
Enghraifft diweddar arall yn fan hyn

Beth mae'r wiwer yn ei gael o'r ymddygiad hwn – bwyta peth o'r rhisgl? Llyfu'r sydd? Ynteu, yn ôl Dewi, 'myrraeth pur!

## Grug Gwyn



Awst 27 2013, Cynllwyd, SH 903 271 **Luned Meredith**

Byddem yn blant, pan ar wyliau yng Nghapel Coch, Ynys Mon, yn cael ein harwain at ychydig o rug gwyn a dyfai ar ochr Mynydd Bodafon, rhwng Capel Caersalem ar Aelwyd. Gan nad oes capel nac Aelwyd yno erbyn heddiw,rhoddaf gyfeirnod y llecyn sef SH 464850. Tybed a oes aelod heini o Gymdeithas Edward Llwyd yn byw yn yr ardal a all fynd i chwilio? **Tudur Pritchard**

## Llanw goleulas ym Môn

**http://www.dailypost..co.uk/news/north-wales-news/look-amazing-pictures-capture-glowing-7282621#.U6CNnmYvFiM.facebook**

Bu'n haf o blacton goleulas ar y traethau. Dewch a'ch sylwadau amdano i Llên Natur.

## Gwalchwyfyn y briwydd

*This fellow joined us for breakfast this morning. We were sure you can tell us who or at least what he is.*

Place: Collioure France Date: 17 June 2014

**Tony Stanford**



Gwalchwyfyn y Briwydd mae'n debyg. Mae'n cyrraedd Prydain yn achlysurol fel mewnfudwr. Cafwyd niferoedd o larfau yn 1888 gogledd a de Lloegr, o 1955-58 yn Norfolk, a 1973 mewn aml i le dros yr Alban a Lloegr.

(Ym mis Mai a Mehefin 1888, ar ôl gaeaf hwyr oer, cafwyd madarch cynnar, eosiaid yn nythu a phla o wyfynod gaeaf. Tua Mai 1973, a'r gwynt yn chwythu o'r tir yn Nhy Ddewi, Penfro, chwythwyd cymylau o bryfed Sant Marc a chlêr y dwymyn tua'r môr lle bu'r gwylannod yn gwledda arnynt. Ar Ynys Llanddwyn yng nghanol Mehefin yr un flwyddyn, mor niferus oedd pryfed y bwrned 6-smotyn fe'u cafwyd yn llythrennol ar bob coesyn o wair. Ewch i'r Tywyddiadur am fanylion).

## Cofio hwn…..?

Y Gwlithen rhithiol: newydd i Gymru, newydd nature



http://www.museumwales.ac.uk/news/?article_id=520

…. a'i henw gwyddonol Cymraeg *Selenochlamys ysbryda*

## Bran goesgoch Caernarfon



Tom Jones, tad Dafydd gyda'r fran goes goch

Dyma stori y Fran Goes Goch. Daeth Tom Jones yn Geidwad Castell Caernarfon yn y chwedegau. Bob dydd byddai'r frân goesgoch yn hedfan yno am y diwrnod. Roedd yn ddôf ond yn rhydd. Deuai ar ysgwydd Tom yn ddyddiol a bu yno am flynyddoedd. Mae'n siwr ei bod yn cael bwyd gan yr ymwelwyr hefyd. Wedi holi mwy, roedd Nansi merch Tom Jones yn gweithio yn y Mona Hotel ym Mhorth yr Aur (yn y 50au) ac mae hi'n cofio fod y fran goesgoch yn dod i'r iard yno gyda'r nos. Roedd yn hoffi mynd i glwydo gyda'r ieir yn y cwt a dod allan yn y bore. Roedd yn dwyn bwyd yr ieir wrth gwrs.

Cyhoeddwyd y llun hwn ym Mhapur Dre, sef papur bro tref Caernarfon Mai 2013.

Gyda diolch i Margaret Roberts a Dafydd John Jones (trwy law IDW)

"Diddorol" meddai Ann Jones. "D'on i ddim yn gwybod yr hanes ond dwi'n cofio gweld bran goes goch ar silff ffenestr wrth ymyl Porth yr Aur ung Nghaernarfon blynyddoedd yn ôl. Yn y chwedegau, swn i'n meddwl. 'Roedd yn bosib mynd yn agos at yr aderyn. Swn i'n meddwl mai'r un aderyn sydd yn y llun". AJ 27 Mehefin 2014

## Cofio Ieuan

**Collwyd Ieuan Roberts yn ddiweddar, cyfaill ffyddlon i Llên Natur. Dyma un o'i luniau a fydd efallai yn atgof o ddiwrnod da yn ei gwmni holliach pedair blynedd yn ôl. Soniodd Ieuan ddim am y cacwn bwm yn y llun, ond, diolch i wasanaeth Llên Natur, mi fuasai wedi cael cwybod beth yw hwnnw hefyd – ac wrth ei fodd yn gwybod dwi'n siwr!**



Dyma flodyn eurwialen, golden rod, *Solidago virgaurea*, a welais yn agos i gopa Pumlumon Arwystli 2/7/10. Mae hwn yn hynod gan ei fod yn blodeuo o leiaf fis ynghynt yn uchel yn y mynyddoedd nag ar lawr gwlad. Mae hefyd llawer iawn yn fyrrach, dim ond ryw chwe modfedd o daldra

**Ieuan Roberts**

Meddai ein arbennigwr cachgwn-bwm Oliver Prys-Jones: *Its a cuckoo bumblebee - which used to be in the genus Psithyrus (now a sub genus of Bombus), a male and probably Bombus sylvestris (cuckoo on Bombus pratorum). ID'ing cuckoos is best done with the benefit of structural characters, but the colour pattern and the fairly early date (2nd July) for a male, make the ID reasonable secure. In better light the very end of the abdomen should have some reddish hairs.*

(Bu farw cyfaill arall Bryan Jones Llangammarch ar brwydr dewr. Bydd teyrnged yn y Bwletin nesaf)

Trist iawn gennym hefyd nodi marwolaeth Robin Evans, un o sylfaenwyr MOROL, hefyd ar ôl brwydr dewr

## Y Lleidr Drws Cefn (tudalen 4 Bwletin 76)…. MWY

*This is a worker of Bombus terrestris - distinguishable by the brownish line between the black and white abdominal bands, and the rather darkish yellow bands; terrestris and 'lucorum' both bite holes themselves and some other species also make use of them. In red currant the culprit biter is usually the blue tit. There is some evidence that the habit doesn't have a negative effect, at least where long-tongued bees are present, as the latter actually visit more flowers to make up the quantity of nectar collected. Doubtless the effect varies with context.*
*Look out for a recent introduction to GB - B hypnorum - which has a ginger thorax, blk front of abdomen and white tail. It often nests in bird boxes and is spreading into Lleyn.* **Oliver Prys Jones**
Mae Oliver yn athrylith ar y cacynnod bwm. Dewch a'ch lluniau ohonynt er mwyn iddo roi cynnig ar eu hadnabod.

## Amser swper bron



Gofynnais [DB] yn wamal i Gwyn ein technegydd (sydd ar hyn o bryd yn gweithio yn Riyadh, Saudi Arabia ar hyn o bryd) os oedd o'n cael trefn ar yr hen Arabs 'na. Dyma ateb Gwyn: Yndw, dwi'n cadw trefn arnynt. Mae hi'n fis Ramadan yma rwan, felly dwi'm yn cael yfed na bwyta rhwng brecwast a chwarter i saith y nos. Byddaf yn gwylio'r haul yn machlud dros ddinas Riyadh er mwyn gwybod pa bryd i fynd am swper (gweler y llun). **Gwyn Williams**
Swnio i mi mai'r Arabiaid sydd wedi cael trefn ar Gwyn!

## Nant Gwrtheyrn ar flaen y gad.... eto!



Ym mis Gorffennaf eleni cynhaliwyd Bioflits llwyddiannus - diwrnod o gofnodi gwyfynod yn yr achos hwn - yn Y Nant yn bennaf ar gyfer y dysgwyr ar gyrsiau yno. Daliwyd nifer fawr o rywogaethau, y rhan fwyaf erioed wedi eu trapio yno o'r blaen. Uchafbwynt y diwrnod oedd ton Gwynedd *Idaea contiguaria*, gwyfyn hynod o brin yn ei gadarnle yng Ngwynedd.

## Peilot y mecryll

*CONWAY. FRESH MACKEREL.—The sporting fraternity will learn with feelings of great expectations that a mackerel pilot has just been caught at the mouth of the Conway by one of the fishermen. The specimen is very uncommon and is always regarded as the forerunner of a great shoal of followers.*
**Conwy Mehefin 1904 Weekly News and Visitors` Chronicle For Colwyn Bay 10 Mehefin 1904—**

Wel chwi bysgotwyr môr, beth yw peilot y mecryll?

[Nodiadau a myfyriadau gan Sion Roberts ar y pwnc: "Mae hon yn anodd....`rioed wedi clywed yr enw `mackerel pilot` a dim byd ar y www. Dyma`r broblem... wrth `sgota am un pysgodyn gyda rhwyd, gelli`r dal pysgodyn anisgwyl, prin, yn eu plith... er engraifft: the king of the herrings = Chimaera monstrosa, rabbit fish, yn Gymraeg: cwningen fôr, pysgodyn dŵr tyfn a ddelir weithiau yn y rhwydi penwaig. *The king of the herrings = Regalecus glesne, oar fish,* `sgodyn dwr tyfn eto. *The king of the mullets = Dicentrarchus labrax, bass*, draenog mor, weithiau bydd y `sgodyn yma yn heigio gyda`r hyrddiaid. Pilot = enw arall am Gadus ogac, Greenland cod, penfras yr Ynys Las. Nid hwn yw...rhy bell i`r De, amser anghywir or flwyddyn. Mae`r morgi trwynog (porebeagle) gyda`r enw: mackerel shark, ond mae`r sgodyn yma yn gyffredin, ac fe fyddai wedi cael eu nodi fel siarc gan y papur?

*Mackerel-guide* = enw arall am *Belone belone, garfish*, cornbig, môr-nodwydd... nid wyf wedi gweld un or rhain yn fyw erioed...mond un yn farw mewn hen rhwyd yn Afonwen... hawdd eu adnabod: pig ganddo, ac mae`r esgyrn yn wyrdd, enw Saesneg arall yw greenbone. Ond nid yw`r `sgodyn yma yn anghyffredin. Ac eto, anodd gwybod be fyddai `sgotwyr aber Conwy yn ystyried yn anghyffredin. Rhywbeth anghyffredin yw `*mackerel pilot*`... tasa hi yn quiz night yn y Penionyn, nos Sadwrn fach, roll over, starter for ten, mi faswn ni yn tybio... mai un o ddau oedd hi.

Mae hogia Conwy wedi dal rhyw fath o tiwna yn eu rhwyd... debyg i facrell, ond yn fwy...? Tybiaf byddant wedi eu adnabod fel tiwna... ond nid ynhw `sgwenodd dy gofnod... Maent wedi dal *Naucrates ductor*, Naucrates [Groeg] = meistr y mor + doctor [Lladin] = arweinydd. *Pilotfish* yn Saesneg. Llywbysgodyn yn Gymraeg... mae hwn gyda`r enw cywir i ti: sef pilot, llywbysgodyn... am eu fod yn hebrwng pysgod eraill, yn enwedig morgwn/siarcod, crwbanod mor, a hefyd proc mor a llongau hwylio. Mi fydda hwn yn anghyffredin...mae yn gallu tyfu at ddwy droedfedd ac o`r pysgod byddai hogia Conwy`n adnabod mae`n edrych yn debycach i facrell nac unrhyw sgodyn arall.

## Blwyddyn yr ermin gwyn

... yn Waunfawr o leiaf! Cefais 35 yn wythnos 24, 10 oedd y cyfrif mwyaf dros y cyfnod 1996-2013.
… a dyma be gofnodais y llynedd yn Y Tywyddiadur, a'r flwyddyn gynt:

**23 9 2012** Lindysod duaidd gwyfyn yr ermin gwyn yn rheolaidd yn yr ardd ar hyn o bryd.

**20 8 2013** Nifer o lindys du blewog yr ermin gwyn yn eu llawn dwf o gwmpas y lle yn y dyddiau diwethaf.

**Duncan Brown**

